01.7.2021

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Release

Pâr lwcus yn priodi'n fyw ar S4C

Yn goron ar wythnos Traethau Cymru bydd **Priodas Pum Mil o'r Traeth** sef rhaglen arbennig iawn o **Priodas Pum Mil**. Bydd Trystan Ellis-Morris ac Emma Walford yn eu holau gyda her go anarferol – trefnu priodas byw ar un o draethau gogoneddus Cymru.

Dewiswyd y pâr cariadus, Siân a Stuart o'r Groeslon, ger Caernarfon gan y cyhoedd nôl ym mis Mai drwy bleidlais ar raglen Heno a gwefan S4C. Bydd y digwyddiad yn un llawn hwyl a sypreisys, a bydd ambell wyneb cyfarwydd yn rhan o'r dathlu i sicrhau diwrnod bythgofiadwy i'r cwpwl hapus.

"Dychmygwch leoliad hudol wedi ei addurno'n fendigedig" meddai Emma Walford. "A dychmygwch adloniant o'r radd uchaf. Mae'n mynd i fod yn berffaith! "

Mae'r cwpwl dewr sydd gyda'i gilydd ers deuddeg mlynedd wedi rhoi eu diwrnod mawr yn nwylo criw Priodas Pum Mil.

"Da ni'n *engaged* ers saith mlynedd, a ma na bob tro rhywbeth arall wedi codi sy'n golygu ein bod wedi methu trefnu priodas hyd yma, felly nes i neidio ar y cyfle i gael priodi'n fyw ar S4C!" meddai Siân y briodferch.

"Mae'r holl ddiwrnod yn sypreis! Y cyfan dwi'n gwybod ydi mod i'n priodi Stuart ar draeth yn rhywle a mod i wedi cael dewis fy ffrog! Mae pob dim arall yn mynd i fod yn sypreis. Dwi'n edrych mlaen cymaint a methu aros i'r diwrnod gyrraedd!"

"Ma Stuart a fi yn bobl reit *chilled* felly dwi'm yn poeni gormod am yr holl sypreisys. Dwi jyst yn gobeithio na'i ddim deud na gwneud dim byd gwirion ar deledu byw!"

Ymunwch felly gyda Sian a Stuart, Trystan ac Emma a'r hanner cant o westeion ar un o draethau hyfryd gogledd Cymru i wylio'r briodas yn fyw.

Bydd cystadleuaeth arbennig hefyd yn rhan o'r rhaglen i ennill gwely, brecwast a phryd bwyd yng Ngwesty Moethus Plas Dinas ger Caernarfon gyda'r enillydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y rhaglen.

Priodas Pum Mil o'r Traeth
Nos Wener 16 Gorffennaf 7.00-7.30 ac 8.00-9.00
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Release

Lucky couple get married live on S4C

The highlight of S4C's week will be very special programme of Priodas Pum Mil. Trystan Ellis-Morris and Emma Walford return with a rather unusual challenge - arranging a wedding on one of Wales' glorious beaches, that will be broadcast live on S4C.

The loving couple, Siân and Stuart from Groeslon, near Caernarfon were chosen by the public back in May by a public vote on the Heno programme and the S4C website. The special day will be full of fun and surprises, and some familiar faces will be part of the celebration to ensure a unforgettable day.

"Imagine a magical setting beautifully decorated," says Emma Walford. "And imagine top-notch entertainment. It's going to be perfect! "

The brave couple who have been together for 12 years have put their big day in the hands of the Priodas Pum Mil crew.

"We've been engaged for seven years, and there's always something else that has meant that we haven't been able to arrange a wedding so far, so I jumped at the chance to get married live on S4C!" said Siân the bride.

"The whole day is a surprise! All I know is that I'm marrying Stuart on a beach somewhere and I got to choose my dress! Everything else is going to be a surprise. I'm looking forward so much and can't wait for the day to arrive!"

"Stuart and I are quite chilled people so I'm not too worried about all the surprises. I just hope I don't say or do anything silly on live TV! "

So join Siân and Stuart, Trystan and Emma and the 50 guests on one of North Wales's beautiful beaches to watch the wedding live.

A special competition will also be held during the programme to win a stay, including bed, breakfast and evening meal at the Plas Dinas Luxury Hotel near Caernarfon with the winner announced at the end of the programme.

Priodas Pum Mil o'r Traeth
Friday 16 July 7.00-7.30 and 8.00-9.00
English Subtitles
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom Cymru production for S4C